# Crynodeb o’r canllawiau

Crynodeb o’r canllawiau byrgyrs cig eidion heb eu coginio’n drylwyr ar gyfer busnesau bwyd ac awdurdodau lleol.

## Diben

Mae’r canllawiau hyn yn rhoi cyngor i fusnesau bwyd ac awdurdodau lleol ar fesurau rheoli a systemau diogel a all leihau’r risgiau sy’n gysylltiedig â byrgyrs cig eidion heb eu coginio’n drylwyr (LTTC), y cyfeirir atynt weithiau fel byrgyrs cig eidion amrwd, pinc neu wedi’u coginio’n ysgafn.

## Statws cyfreithiol

Mae’r ddogfen hon yn cynnwys Cydymffurfiaeth Rheoleiddio (hynny yw, sut i gydymffurfio â gofynion rheoleiddiol) a Chanllawiau Arferion Gorau (sy’n rhannu enghreifftiau defnyddiol o ddulliau y gallech eu defnyddio, ond nad oes gofyniad cyfreithiol i chi eu dilyn).

## Ar gyfer pwy mae’r canllawiau?

### Mae’r canllawiau hyn ar gyfer:

- busnesau bwyd sy’n gweini byrgyrs cig eidion LTTC
- swyddogion awdurdodau lleol sy’n gorfodi rheolaethau swyddogol ar hylendid bwyd
- gallai’r canllawiau hefyd fod o ddiddordeb i weithgynhyrchwyr, proseswyr a dosbarthwyr cig eidion, briwgig eidion a byrgyrs cig eidion y bwriedir iddynt fod heb eu coginio’n drylwyr

### I ba wledydd yn y Deyrnas Unedig (DU) mae’r canllawiau hyn yn berthnasol?

- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- Lloegr

## Dyddiad adolygu

Byddwn yn adolygu’r canllawiau hyn cyn mis Mehefin 2025

## Geiriau allweddol

1. cyfraith bwyd
2. monitro a rheolaethau
3. hylendid a diogelwch bwyd
4. byrgyrs cig eidion heb eu coginio’n drylwyr
5. byrgyrs
6. cig a da byw

## Cysylltu â ni

Rydym yn croesawu eich adborth ar y canllawiau hyn. Cysylltwch â ni drwy gyflwyno ymholiad ar-lein os ydych yn fusnes. Dylai awdurdodau lleol gysylltu â'r ASB yn y modd arferol, gan ddilyn yr hierarchaeth ymholiadau y cytunwyd arni ac sydd i'w gweld ar y llwyfan Hwyluso Cyfathrebu (Smarter Communications).

## Lawrlwytho'r canllawiau

Gallwch wneud y canlynol:

- defnyddio'r opsiwn 'Gweld fel PDF' ar frig pob tudalen i lawrlwytho tudalennau unigol y canllawiau hyn
- defnyddio'r opsiwn 'Gweld y canllawiau cyfan fel PDF' ar waelod pob tudalen i lawrlwytho'r canllawiau cyfan fel un ddogfen

## Hanes diwygio

**Mai 2023** – Teitl newydd, a diwygio'r canllawiau i'w gwneud yn fwy eglur ac yn haws eu deall. Ychwanegu cyngor i brynu briwgig a byrgyrs cig eidion o safleoedd cymeradwy penodol.
**Ionawr 2022** – Diwygio'r canllawiau fel eu bod yn haws eu deall. Ychwanegu cyngor i brynu briwgig a byrgyrs cig eidion o safleoedd cymeradwy penodol. Newid fformat o ddogfen PDF i dudalennau gwe HTML am resymau hygyrchedd.
**Mehefin 2018** – Adolygu negeseuon i ddefnyddwyr
**Mai 2016** – Cyhoeddi'r canllawiau gwreiddiol